SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU** **A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #31 SCHTh Gogledd Cymru – 20 Hydref 2023**
**OPCC North Wales Newsletter #31 – 20 October 2023**

## CHTh Gogledd Cymru yn cefnogi ymgyrch Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb 2023

Mae Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb yn cael ei chynnal rhwng 14 a 21 Hydref ledled y DU, gyda'r nod o daflu goleuni ar bla trosedd casineb. Mae'r ymgyrch wythnos o hyd, a sefydlwyd yn 2009, yn annog y Llywodraeth, yr Heddlu, cynghorau lleol, elusennau a chymunedau a effeithir gan droseddau casineb, i weithio gyda'i gilydd er mwyn ymdrin â throsedd casineb lleol ledled y DU. Yn ôl y trefnwyr, mae'n "anelu dod â phobl at ei gilydd i sefyll mewn undod gyda'r bobl hynny a effeithir gan drosedd casineb, er mwyn cofio'r bobl hynny rydym wedi'u colli, a chefnogi'r bobl hynny sydd angen cymorth parhaus."

Mae digwyddiad casineb yn un lle mae'r dioddefwr, neu unrhyw un arall, yn meddwl ei fod ar sail rhagfarn rhywun tuag atynt oherwydd eu hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oherwydd eu bod yn drawsryweddol.

Mae Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru wedi rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r ymgyrch. Mae wedi cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau er mwyn nodi'r wythnos ac ymgysylltu hefo gwahanol gymunedau ledled y rhanbarth a effeithir gan drosedd casineb. **Darllenwch fwy yma.**



## North Wales PCC backs Hate Crime Awareness Week 2023

National Hate Crime Awareness Week is running from 14-21 October across the UK, with the aim of shining a light on the scourge of hate crime. The week-long campaign founded in 2009, encourages Government, the Police, local councils, charities, and communities affected by hate incidents, to work together to tackle local hate crime across the UK. According to the organisers, it "aims to bring people together to stand in solidarity with those affected by hate crime, to remember those we have lost, and support those who need ongoing support."

A hate incident is one in which the victim, or anyone else, thinks is based on someone's prejudice towards them because of their race, religion, sexual orientation, disability or because they are transgender.

North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin has given the campaign his full backing and has taken part in a series of events to mark the week and to engage with different communities across the region affected by hate crime. **Read more here.**

---

## Myfyrwyr yn dysgu neges diogelwch ar y ffyrdd mewn achos llys ffug yn Rhuthun

Ddydd Gwener, 13 Hydref, cafodd dros 100 o fyfyrwyr Chweched Dosbarth a Blwyddyn 11 Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun brofi sut beth ydy bod yn y llys, hefo achos llys ffug a gynhaliwyd ym mhrif neuadd yr ysgol, a noddwyd gan y darparwr offer drama Kompan.

Ar wahân i ddangos sut mae achos llys yn gweithredu a'r rolau sydd ar gael i ddisgyblion sydd â diddordeb mewn astudio a gweithio yn y system gyfreithiol, pwrpas allweddol y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc am yrru'n ddiogel a pheryglon gyrru'n fyrbwyll. Yn 2022, bu 34 o farwolaethau ar ffyrdd Gogledd Cymru, gydag 8 yn yrwyr 16-25 oed.

Trefnwyd y digwyddiad gan Pat Astbury, sy'n byw'n Rhuthun ac sy'n Ddirprwy Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Lluniwyd sgript yr 'achos llys' gan Jean Williams, sydd â blynyddoedd lawer o brofiad o gynghori ynadon pan ddaw achosion i'r llys. Roedd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Wayne Jones hefyd yn bresennol yn y digwyddiad.



**Students learn the message of road safety at Ruthin mock trial**

On Friday, 13 October, over 100 Sixth Form and Year 11 students at Ysgol Brynhyfryd in Ruthin experienced what it is like to be in court, with a mock trial that took place in the school's main hall, sponsored by play equipment provider Kompan.

Aside from showing how a court case operates and the roles open to pupils interested in studying and working in the legal system, the key purpose of the event was raising awareness about the need to drive safely among young people and the dangers of driving recklessly. In 2022, 34 fatalities occurred on the roads of North Wales, with 8 being drivers aged 16-25.

The event was organised by local Ruthin resident, and Deputy Chair of the North Wales Police and Crime Panel, Pat Astbury and the script of the 'trial' was put together by Jean Williams, who has many years' experience of advising magistrates when cases come to court. Deputy Police and Crime Commissioner Wayne Jones was also present at the event.

## CHTh yn gweld yr hyn sydd ar y gweill i Wersyll Sgowtiaid Ynys Môn

Fe aeth Andy Dunbobbin i ymweld â Gwersyll Ardal Talwrn Sgowtiaid Ynys Môn ar 14 Hydref, yn ystod un o'i ddyddiau cynnal a chadw dros yr hydref. Roedd yno er mwyn dysgu mwy am waith a gweithgareddau'r Sgowtiaid. Gwelodd sut mae arian sy'n cael ei gymryd oddi ar droseddwyr yn cael ei ddefnyddio er lles pobl ifanc yr ardal drwy brosiect Adnoddau Storio Canolog y Sgowtiaid.

Mae cronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn helpu prosiectau llawr gwlad ac mae'n derbyn help gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru (PACT) a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r arian ar gyfer Eich Cymuned, Eich Dewis yn dod yn rhannol oddi wrth arian sydd wedi ei atafaelu drwy'r llysoedd drwy Ddeddf Enillion Troseddau gyda'r gweddill o Gronfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Mae Sgowtiaid Ynys Môn yn cynnwys saith grŵp sy'n gwasanaethu pobl ifanc 14-18 oed yr ynys i gyd. Mae ganddyn nhw dros 300 aelod ar hyn o bryd ac maen nhw'n cynyddu, ynghyd â 70 o wirfoddolwyr ar waith. Mae arian Eich Cymuned, Eich Dewis wedi helpu rhoi storfa saff yn Nhalwrn ar gyfer yr eitemau hyn, sydd bellach mewn lle hawdd i grwpiau'r Sgowtiaid gael atyn nhw. **Darllenwch fwy yma.**



## PCC sees what's in store for Anglesey Scout Camp

Andy Dunbobbin visited Ynys Môn Scouts' Talwrn District Campsite on Anglesey on 14 October, during one of its Autumn site maintenance days, to learn more about the Scouts' work and activities and to see how money taken from criminals is being used for the good of the young people of the island through the Scouts' Central Storage Resource project.

The Your Community, Your Choice fund supports grass-roots projects and is backed by the North Wales Police and Crime Commissioner, North Wales Police and Community Trust (PACT) and North Wales Police. The funding for Your Community, Your Choice comes partly from money seized by the courts through the Proceeds of Crime Act, with the rest from the Police and Crime Commissioner.

The Anglesey District Scouts (Ynys Môn Scouts) are comprised of seven groups that serve the young people of the entire island from the ages of 4 to 18 years. They currently have a total membership of over 300 and growing, plus around 70 active volunteers. The funding from Your Community, Your Choice has helped provide a safe and secure storage facility onsite at Talwrn for items which are now easily accessible to Scout groups. **Read more here.**

---

### Y CHTh yn gweld sut mae prosiectau yn gwneud gwahaniaeth yn Shotton

Yn ddiweddar, gwnaeth Andy Dunbobbin gyfarfod â Sean Bibby, Cynghorydd Gorllewin Shotton ac Aelod o Gabinet Sir y Fflint dros Dai ac Adfywio. Diben y cyfarfod oedd gweld sut mae mentrau trechu trosedd yn gwneud gwahaniaeth ac yn helpu cadw trigolion lleol yn saffach yn Shotton.

Mae'r prosiectau wedi'u hariannu drwy Gronfa Strydoedd Diogelach. Mae hon yn rhaglen £75 miliwn gan y Swyddfa Gartref sy'n annog Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac awdurdodau lleol ymgeisio am fuddsoddiad am fentrau er mwyn atal troseddau mewn cymdogaethau.  Cyhoeddwyd fis Gorffennaf llynedd fod ardaloedd Shotton a Queensferry yn Sir y Fflint wedi llwyddo yn eu cais am dros £385,000 o'r gronfa. Y partneriaid a oedd ynghlwm yng nghynnig Sir y Fflint oedd Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint a gwasanaethau a oedd yn gysylltiedig mewn gweithio er mwyn atal trais yn erbyn merched yng Ngogledd Cymru.

Ers y cyhoeddiad llynedd, mae partneriaid wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn rhoi cynlluniau ar waith yn lleol. Yn ystod eu taith gerdded o amgylch Shotton, gwelodd Andy Dunbobbin a'r Cynghorydd Bibby rai o lwyddiannau'r prosiect. Fel rhywun sy'n byw yng Nghei Connah ac yn gynghorydd tref am sawl blwyddyn, roedd gan y Comisiynydd ddiddordeb gweld y gwahaniaeth roedd y cyllid a'r prosiectau wedi'u gwneud yn yr ardal. **Darllenwch fwy yma.**



**PCC sees how projects are making a difference in Shotton**

Andy Dunbobbin recently met Shotton West Councillor, and Flintshire Cabinet Member for Housing and Regeneration, Sean Bibby, to see how new crime fighting initiatives are making a difference and helping to keep local residents safer in Shotton.

The projects have been funded through the Safer Streets Fund, which is a £75 million Home Office programme that encourages Police and Crime Commissioners and local authorities to bid for investment for initiatives to prevent neighbourhood crime. It was announced in July last year that the Shotton and Queensferry areas of Flintshire had been successful in their bid for over £385,000 from the fund. Partners involved in the Flintshire bid were North Wales Police, Flintshire County Council, Flintshire Youth Justice Services and services involved in working to prevent violence against women in North Wales.

Since the announcement last year, partners have been working hard to put plans into action locally. During their walk around Shotton, Andy Dunbobbin and Councillor Bibby saw some of the projects' successes and, as a resident of Connah's Quay and a town councillor for many years, the PCC was interested to see the difference the funding and projects had made in the area. **Read more here.**

---

**Erthyglau allweddol o'r cyfryngau | Key articles from across the media**

- Police Oracle: North Wales continues IT repurposing collaboration *(Erthygl Saesneg)*

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?

Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy